# Gweithdrefnau ar gyfer Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau

Gweithdrefn 07: 2025 Fersiwn 1.0
Daw i rym: 6 Tachwedd 2025

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 6 Tachwedd 2025 | 2022 Fersiwn 02 | Newidiadau bach sy'n adlewyrchu’r ailstrwythuro sefydliadol a newid i’r broses ar gyfer hysbysu bod myfyrwyr yn dychwelyd. |
| 6 Hydref 2022 | 2022 Fersiwn 01 | Newid bach i gyflwyno’r Ganolfan Geisiadau yn FyMangor. |
| 1 Gorffennaf 2022 | 2021 Fersiwn 01 | Mân newid yn ymwneud â meini prawf cymeradwyo gohirio astudiaethau o achos absenoldeb rhiant. |
| 1 Hydref 2021 | 2018 Fersiwn 1.2 | Caniatáu i Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd ddewis i gymeradwyo gohirio astudiaethau ar ôl i gyfnod cofrestru myfyriwr ddod i ben. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Dirprwy Gofrestrydd Academaidd: Gweinyddiaeth a Chefnogi Busnes | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 6 Tachwedd 2025. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau’r Coleg yn y drefn honno, fel y bo’n briodol.

# Gweithdrefnau ar gyfer Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau

Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu sut gall myfyrwyr ohirio eu hastudiaethau'n ffurfiol.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Rhagarweiniad

1. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn pan fo myfyrwyr yn dymuno gohirio eu hastudiaethau. Ni ellir defnyddio'r gweithdrefnau hyn ond mewn achosion lle gellir cyfiawnhau'r rhesymau pam na all myfyriwr barhau â'i astudiaethau yn ôl y bwriad.
2. Mae'r trefniadau'n berthnasol i fyfyrwyr llawn amser a myfyrwyr rhan amser. Rhaid i fyfyrwyr rhan amser wneud cais i ohirio eu hastudiaethau mor fuan â phosib ar ôl iddynt sylweddoli nad ydynt yn gallu parhau gyda'u hastudiaethau yn ôl y bwriad.
3. **Ni chaniateir defnyddio'r** weithdrefn hon i ohirio astudiaethau myfyrwyr o dan y categorïau canlynol:
    - Absenoldebau byr cymeradwy (e.e. salwch tymor byr). Dylid trin achosion felly fel absenoldebau awdurdodedig gan ragdybio bod myfyrwyr yn gallu parhau gyda gwaith cefndir, yn gallu defnyddio adnoddau electronig, ac y gellir cymeradwyo estyniadau priodol ar gyfer gwaith cwrs.
    - Sefyllfaoedd y gellir mynd i'r afael â nhw yn defnyddio gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer ymdrin ag amgylchiadau lliniarol.
    - Estyniadau i gyfnodau cofrestru. Dylai achosion o'r fath gael eu hystyried o dan weithdrefnau ar gyfer ymestyn cyfnod astudio.
    - Achosion disgyblu. Dylid ystyried achosion o'r fath o dan y Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr.
    - Achosion o gamymddwyn academaidd. Dylid ystyried achosion o'r fath o dan y Weithdrefn Uniondeb Academaidd.
    - Myfyrwyr sydd mewn dyled. Dylid ystyried achosion o'r fath o dan y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â dyledwyr. Ni chaniateir gohirio astudiaethau dim ond fel ffordd o osgoi neu ohirio talu dyledion sydd yn parhau'n ddyledus.
    - Myfyrwyr y gall byrddau arholi derfynu eu hastudiaethau yn unol â'r Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig.
    - Myfyrwyr y gall y Brifysgol ohirio neu derfynu eu hastudiaethau oherwydd afiechyd fel y diffinnir hynny gan y Rheoliadau Cyffredinol i'r Holl Fyfyrwyr.
    - Myfyrwyr y gellir gohirio neu derfynu eu hastudiaethau drwy weithdrefnau penodol a gymeradwywyd fel rhan o'r broses gymeradwyo/dilysu ar gyfer eu cwrs, gan gynnwys amodau a osodwyd gan gyrff proffesiynol neu noddwyr.
    - Myfyrwyr yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd ac yn Ysgol Feddygol Gogledd Cymru y caiff eu hastudiaethau eu gohirio gan weithdrefnau sydd ar waith i fodloni gofynion proffesiynol a gofynion comisiynwyr. Dylai'r myfyrwyr hyn geisio arweiniad gan eu hysgol academaidd yn y lle cyntaf.
4. Dim ond ar gyfer cyfnodau sylweddol, sef gweddill y sesiwn fel arfer, y caniateir gohirio astudiaethau. Hynny yw ni chaniateir i fyfyrwyr ddychwelyd i'w

hastudiaethau o fewn sesiwn academaidd ac ni allant ailafael yn eu hastudiaethau tan y sesiwn academaidd nesaf. Yn unig eithriad yw myfyrwyr ar raglenni ymchwil ôl-radd y gellir caniatáu iddynt ailafael yn eu hastudiaethau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib, ar yr amod bod eu rhaglen astudio neu ymchwil yn caniatáu hyn. Cofnodir hyd y cyfnod astudio di-dor i fyfyrwyr ar raglenni ymchwil ôl-radd i'r mis cyfan agosaf.

5. Yn ystod cyfnod o ohirio astudiaethau, ni chofnodir myfyrwyr fel myfyrwyr cofrestredig y Brifysgol ac ni fyddant yn talu ffioedd.

**Sut i wneud cais i ohirio astudiaethau**

6. Cyn gwneud cais i ohirio astudiaethau, dylai myfyrwyr ymgynghori â'u tiwtor personol, yr uwch diwtor, cyfarwyddwr y cwrs, y goruchwyliwr neu bennaeth yr ysgol (neu eu henwebai) i drafod yr amgylchiadau a goblygiadau academaidd gohirio astudiaethau. Dylai'r myfyrwyr ystyried hefyd unrhyw ganlyniadau eraill fydd yn deillio o ohirio eu hastudiaethau (e.e. contract llety neu oblygiadau ariannol).
7. Dylai myfyrwyr ystyried a ydyw eu noddwr neu'r corff sy'n gyfrifol am gofrestriad proffesiynol yn caniatáu iddynt ohirio eu hastudiaethau Nid yw'r ffaith bod y Brifysgol yn cymeradwyo cais i ohirio astudiaethau yn gwarantu y bydd hyn yn cael ei ganiatáu o dan reoliadau noddwr ac mae'n bosib y bydd myfyrwyr yn gorfod gwneud cais ar wahân am estyniad gan y noddwr. Dylai myfyrwyr ystyried hefyd a fydd noddwyr yn gofyn am ad-daliad o'r ariantal os byddant yn gohirio eu hastudiaethau.
8. Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno ceisiadau i ohirio astudiaethau naill ai'n ysgrifenedig, neu drwy'r Ganolfan Geisiadau yn FyMangor. Rhaid i'r cais gynnwys:
    - Y rhesymau dros wneud cais i ohirio astudiaethau.
    - Tystiolaeth i gadarnhau amgylchiadau meddygol neu bersonol.
    - Dyddiad dechrau'r cyfnod o ohirio astudiaethau.
    - Dyddiad gorffen arfaethedig y cyfnod gohirio astudiaethau (os yw'n hysbys).
9. Rhaid cyflwyno ceisiadau at y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd (Y Gofrestrfa: Gweinyddu Myfyrwyr) fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Myfyrwyr Israddedig: | Trwy'r Ganolfan Geisiadau yn FyMangor. |
| Myfyrwyr Ôl-radd Hyfforddedig: | Trwy'r Ganolfan Geisiadau yn FyMangor. |
| Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd: | Trwy'r goruchwyliwr, cadeirydd y Pwyllgor Goruchwylio neu swyddog penodol arall yn yr ysgol. |

10. Rhaid cyflwyno ceisiadau fel rheol cyn dechrau'r cyfnod o ohirio astudiaethau neu cyn pen 20 diwrnod gwaith, os yw'n ymarferol bosib, i'r myfyriwr roi gorau i'w astudiaethau am resymau anorfod (e.e. damwain a rwystrodd y myfyriwr rhag parhau â'i astudiaethau). Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol yr ystyrir ceisiadau wedi eu hôl-ddyddio (h.y. mwy na mis) a lle gall y myfyriwr ddangos rheswm da pam na chyflwynwyd y cais ar yr adeg briodol.

**Y meini prawf ar gyfer cymeradwyo gohirio astudiaethau**

11. Fel rheol ni chymeradwyir gohirio astudiaethau ond am y rhesymau canlynol;

| | |
|---|---|
| Salwch | Rhaid cynnwys tystysgrif feddygol neu ddogfennaeth gyfwerth gyda'r cais. |
| Ceisiadau Rhiant / Mamolaeth / Tadolaeth / Mabwysiadu | Rhaid i geisiadau gynnwys tystiolaeth y bydd cyfrifoldebau rhiant yn atal myfyriwr rhag astudio. |
| Swydd Sabothol | Fel rheol dim ond i fyfyrwyr sy'n cael eu hethol i swydd sabothol yn Undeb Myfyrwyr y Brifysgol y mae hyn yn berthnasol. |
| Profiad Gwaith | I fyfyrwyr ar raglenni nad ydynt yn cynnwys cyfnod penodol o brofiad gwaith: rhaid i fyfyriwr ddangos bod y profiad gwaith yn berthnasol i'r rhaglen astudio, a rhaid cefnogi'r cais gyda datganiad gan y darpar gyflogwr a rhaid i ysgol y myfyriwr ei gefnogi. |
| Ymrwymiadau Proffesiynol Eithriadol | I fyfyrwyr ar raglenni rhan amser: rhaid cyflwyno datganiad gan gyflogwr y myfyriwr i gefnogi'r cais trwy gadarnhau'r ymrwymiadau eithriadol. |
| Astudio Dramor | I fyfyrwyr ar raglenni nad ydynt yn cynnwys cyfnod penodol o astudio dramor: rhaid i fyfyrwyr ddangos bod y cyfnod o astudio dramor yn berthnasol i'r rhaglen astudio, a rhaid i'r cais fod wedi ei gefnogi gyda datganiad gan y sefydliad lletyol, a bod wedi ei gefnogi gan ysgol y myfyriwr. |
| Sail Dosturiol | Sefyllfaoedd lle bu newid sylweddol yn amgylchiadau personol, domestig neu deuluol myfyriwr. |
| Caledi Ariannol | Dim ond os yw'r caledi ariannol wedi cael ei achosi gan newid yn amgylchiadau personol myfyriwr neu oherwydd unrhyw ffactorau eraill y tu allan i reolaeth y myfyriwr y caiff ceisiadau eu cymeradwyo. |

**Y gweithdrefnau ar gyfer ystyried ceisiadau**

12. Bydd ceisiadau'n cael eu prosesu gan y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd (Y Gofrestrfa: Gweinyddu Myfyrwyr) cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

13. Lle bo angen, Bydd y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd (Y Gofrestrfa: Gweinyddu Myfyrwyr) yn trafod ceisiadau gydag Ysgol y myfyriwr, yn enwedig er mwyn ystyried:

    - Newidiadau i strwythur a chynnwys y rhaglenni yn ystod y cyfnod o ohirio astudiaethau.
    - Trefniadau asesu fel nad yw'r myfyriwr o dan fantais nac o dan anfantais.

14. Bydd y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd (Y Gofrestrfa: Gweinyddu Myfyrwyr) yn sicrhau bod myfyrwyr a'u hysgolion yn cael gwybod am ganlyniad pob cais. Bydd y wybodaeth fydd ar gael i fyfyrwyr yn cynnwys y canlynol:

    - Y dyddiad y disgwylir i'r myfyriwr ailafael yn ei astudiaethau
    - Yr adeg yn y rhaglen astudio pryd y caniateir i'r myfyriwr ddychwelyd.

- Manylion unrhyw amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall myfyriwr ddychwelyd i'r Brifysgol.
- Dyddiadau cau diwygiedig ar gyfer cwblhau'r rhaglen (lle bo hynny'n berthnasol).
- Rydym yn cadarnhau'r canlynol:
    - Rhaid rhoi rhybudd o 20 diwrnod gwaith i ddweud eu bod yn dychwelyd.
    - Ni fydd gan y myfyriwr fynediad at gyfleusterau'r Brifysgol.
    - Ni ellir addo llety yn y Brifysgol pan fydd y myfyriwr yn dychwelyd.
    - Gellir dirwyn y rhaglen i ben cyn i'r myfyriwr ailafael yn ei astudiaethau

15. Anfonir canlyniad y cais i ohirio astudiaethau at y myfyriwr trwy lythyr, fel rheol ar ffurf atodiad e-bost. Dim ond y llythyr swyddogol y gellir ei ddefnyddio i gadarnhau bod y cais i ohirio astudiaethau wedi ei gymeradwyo.
16. Fel arfer bydd y Tîm Data Myfyrwyr yn rhoi gwybod i noddwr y myfyriwr os cymeradwyir cais. Mewn rhai achosion, bydd ysgol y myfyriwr yn sicrhau bod noddwyr ac/neu sefydliadau eraill (e.e cyrff proffesiynol) yn cael gwybod.
17. Os yw'r myfyriwr yn byw mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol, bydd y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd (Y Gofrestrfa: Gweinyddu Myfyrwyr) yn rhoi gwybod i Swyddfa'r Neuaddau bod y cais i ohirio astudiaethau wedi cael ei gymeradwyo. Ad-delir ffioedd neuadd fel y disgrifir ym mharagraff 22.
18. Gellir cyfeirio ceisiadau sy'n cynnwys amgylchiadau eithriadol neu arbennig o anarferol at Gadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd i'w hystyried.

**Cyfyngiadau ar geisiadau**

19. Dim ond am gyfnod o hyd at 12 mis y cymeradwyir gohirio astudiaethau. Rhaid i fyfyrwyr sy'n dymuno ymestyn y cyfnod gohirio astudiaethau gyflwyno cais newydd.
20. Ni roddir ystyriaeth i geisiadau a dderbynnir ar ôl diwedd cyfnod cofrestru'r myfyriwr. Rhaid ymdrin ag unrhyw amgylchiadau sy'n effeithio ar allu'r myfyriwr i gwblhau ei astudiaethau ar ôl terfynu'r cyfnod cofrestru (e.e. cwblhau traethawd hir ymchwil) trwy wneud cais am estyniad ac/neu trwy weithdrefnau'r Ysgol ar gyfer ymdrin ag amgylchiadau lliniarol oni bai bod Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn ystyried ei bod yn briodol caniatáu gohirio astudiaethau ar y pwynt hwnnw.

**Ffioedd dysgu a ffioedd eraill**

21. Fel rheol ad-delir ffioedd dysgu ar sail pro rata. Fel rheol ad-delir ffioedd a dalwyd gan drydydd parti (e.e. noddwr, Cyngor Ymchwil neu gwmni benthyca) i'r trydydd parti ac nid i'r myfyriwr.
22. Ad-delir Ffioedd Neuaddau Prifysgol fel y diffinnir yn ôl telerau cytundeb preswyl myfyriwr a rheoliadau cysylltiedig. Fel rheol ad-delir ffioedd llety a dalwyd gan drydydd parti (e.e. noddwr) i'r trydydd parti ac nid i'r myfyriwr.
23. Fel rheol rhaid talu unrhyw ddyledion sy'n parhau'n ddyledus cyn dechrau'r cyfnod gohirio astudiaethau neu yn unol ag amserlen a gytunir gan y Brifysgol.

**Ailafael mewn astudiaethau**

24. Cyn i fyfyriwr ddychwelyd i'r Brifysgol, rhaid iddo/iddi wneud cais i ailafael yn ei astudiaethau drwy'r Ganolfan Geisiadau yn FyMangor.

25. Pan gymeradwyir gohirio astudiaethau ar sail feddygol, rhaid i'r myfyriwr fel arfer gynnwys tystysgrif feddygol gyda'r cais i ailafael yn ei h/astudiaethau. Gyda rhai cyrsiau, efallai y bydd hefyd angen gwiriadau iechyd ychwanegol a drefnir gan yr ysgol. Os nad yw myfyriwr yn darparu tystysgrif feddygol, efallai bydd y Brifysgol yn rhwystro'r myfyriwr rhag ailafael yn ei astudiaethau.

26. Ar ôl cyfnod o ohirio astudiaethau, fel rheol rhaid i'r myfyriwr ddilyn y rhaglen fel y cynigir hi ar yr adeg pan fydd yn ailafael yn ei astudiaethau. Er enghraifft, rhaid i fyfyrwyr sy'n dychwelyd i gwblhau modiwlau Lefel 6 ar ôl gohirio eu hastudiaethau am gyfnod ddilyn y modiwlau craidd a'r modiwlau gorfodol hynny a ddiffiniwyd ar gyfer y flwyddyn academaidd pan fo'r myfyriwr yn ailafael yn ei astudiaethau. Fel rheol ni chaiff y myfyriwr ailwneud modiwl y mae eisoes wedi ennill credyd am ei wneud.

27. Os nad yw myfyriwr yn dychwelyd i'r Brifysgol ar ôl gohirio ei astudiaethau am gyfnod ac os nad yw wedi gofyn neu wedi cael cymeradwyaeth i ohirio ei astudiaethau am gyfnod ychwanegol, terfynir cofrestriad y myfyriwr, a lle bo'n bosib, dyfernir cymhwyster ymadael iddo/iddi. Gall myfyrwyr y terfynwyd eu hastudiaethau wneud cais i astudio ar yr un rhaglen neu ar raglen wahanol yn y Brifysgol ond ymdrinnir â'r cais fel cais newydd. Caiff ceisiadau i achredu dysgu blaenorol neu drosglwyddo credydau, ar sail astudiaethau a gwblhawyd cyn gohirio astudiaethau, eu hystyried ar eu teilyngdod unigol yn unol â'r Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig.

**Dyddiadau Cau Cwblhau Rhaglenni**

28. Ar ôl gohirio eu hastudiaethau am gyfnod disgwylir i fyfyrwyr gwblhau eu rhaglenni o fewn y terfynau amser a nodir isod:

| | |
|---|---|
| Myfyrwyr israddedig: | O fewn y terfynau amser a bennir yn y Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig.<br>Er enghraifft: yn achos myfyriwr llawn amser ar raglen radd 3 blynedd – o fewn pum mlynedd. |
| Myfyrwyr Ôl-radd Hyfforddedig | O fewn y terfynau amser a nodir yn y Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig ynghyd â hyd y cyfnod o ohirio astudiaethau.<br>Er enghraifft: yn achos myfyriwr llawn amser ar raglen blwyddyn (y disgwylir iddo/iddi gwblhau'r rhaglen mewn blwyddyn), y gohiriwyd ei h/astudiaethau am 12 mis – o fewn 2 flynedd. |
| Myfyrwyr ymchwil ôl-radd: | O fewn y terfynau amser a nodir yn y Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil Ôl-radd, ynghyd â hyd y cyfnod o ohirio astudiaethau.<br>Er enghraifft: yn achos myfyriwr llawn amser ar raglen PhD tair blynedd (y disgwylir iddo/iddi gwblhau'r rhaglen mewn 4 blynedd), y gohiriwyd ei astudiaethau am 12 mis – o fewn 5 mlynedd. |

**Y Drefn Apelio**

29. Ystyrir apeliadau yn erbyn unrhyw benderfyniadau a wneir dan y Gweithdrefnau hyn gan Ddirprwy Is-ganghellor, fel rheol y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr). Dylid cyflwyno apeliadau'n ysgrifenedig at y Dirprwy Gofrestrydd

Academaidd: Gweinyddiaeth a Chefnogi Busnes o fewn 10 diwrnod i'r dyddiad y mae'r myfyriwr yn derbyn hysbysiad o'r penderfyniad.

30. Ystyrir apeliadau am y rhesymau a ganlyn yn unig:

- Diffygion neu afreoleidd-dra wrth weithredu'r gweithdrefnau hyn.
- Amgylchiadau personol eithriadol sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad. Rhaid i'r apelydd egluro pam na wnaed y cyfryw amgylchiadau personol yn hysbys i'r Brifysgol cyn gwneud penderfyniad. Lle gallai myfyriwr fod wedi rhoi gwybod am amgylchiadau eithriadol, ond na wnaeth hynny, ni all wedyn roi'r rhesymau hyn fel sail dros apelio.

31. Bydd y Dirprwy Is-ganghellor (neu ei enwebai) yn ymchwilio i'r pryderon mewn unrhyw fodd a fo'n addas er mwyn casglu gwybodaeth berthnasol a llawn cyn dyfarnu ar yr apêl.

32. Gall y Dirprwy Is-ganghellor ddod i un o'r casgliadau canlynol:

- **Peidio â chadarnhau'r** apêl. Bydd y Dirprwy Is-Ganghellor yn rhoi cyfarwyddyd i'r Dirprwy Gofrestrydd Academaidd: Gweinyddiaeth a Chefnogi Busnes i ysgrifennu at yr apelydd i'w hysbysu na chadarnhawyd yr apêl a bod gweithdrefnau'r Brifysgol wedi dod i ben.
- **Cadarnhau'r** apêl. Bydd y Dirprwy Is-Ganghellor yn rhoi cyfarwyddyd i'r Dirprwy Gofrestrydd Academaidd: Gweinyddiaeth a Chefnogi Busnes i drefnu bod yr achos yn cael ei ystyried o'r newydd. Yn ei g/chyfarwyddyd i'r Dirprwy Gofrestrydd Academaidd: Gweinyddiaeth a Chefnogi Busnes bydd y Dirprwy Is-Ganghellor yn nodi ar ba sail y cadarnhawyd yr apêl.

33. Fel rheol ni chaniateir apeliadau yn erbyn penderfyniad a ailystyriwyd.

34. Mae gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch gynllun annibynnol i adolygu cwynion gan fyfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor yn aelod o'r cynllun hwn. Os ydych yn anfodlon ar y canlyniad a gawsoch gan Brifysgol Bangor, efallai y gallwch ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch adolygu eich achos. Cewch ragor o wybodaeth ynglŷn â gwneud cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, yr hyn y gall a'r hyn na all edrych arno a'r hyn y gall ei wneud i unioni pethau, yma: https://www.oiahe.org.uk/students.
Fel rheol rhaid i chi fod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn cwyno wrth Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Bydd Prifysgol Bangor yn anfon llythyr atoch o'r enw 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau' ar ôl i chi gyrraedd diwedd y prosesau hyn ac nad oes unrhyw gamau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol. Os na chaiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau, bydd Prifysgol Bangor yn cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'n awtomatig. Os caiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau neu hyd yn oed ei chadarnhau'n rhannol cewch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan Brifysgol Bangor os dymunwch. Cewch ragor o wybodaeth am Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a phryd y dylech ddisgwyl derbyn un, yma: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-proceduresletters.

    I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, bydd angen i chi lenwi a chyflwyno Ffurflen Cwynion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol o fewn 12 mis i ddyddiad penderfyniad terfynol Prifysgol Bangor (sef dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau fel arfer), ac, fel arfer, bydd angen i chi anfon eich Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.